**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Tachwedd 4ydd 2015 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Gwydion Jones, Cyngh Dilwyn O Roberts

Presennol: D Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Ian W Griffith, Gwyn Williams, Ifor G Edwards, Elen H Edwards, R Emlyn Williams a'r Clerc.

46.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

46.2 TOILEDAU LLANGERNYW – croesawyd swyddogion Cyngor Conwy Mr Steve Teale a Mr Edward Nash i'r cyfarfod i gyflwyno diweddariad ar ddatblygiad y toiledau. Deallir eu bod wedi cael ychydig o drafferth gyda'r llwybr yn wreiddiol; bod paneli solar am gael eu gosod ar y to; bod cyfarfod safle llwyddiannus wedi ei gynnal gyda'r Cyngor Cymuned; bydd manylion cyfreithiol i'w cwblhau pan fydd y gwaith wedi ei orffen; gobeithir gorffen erbyn diwedd mis Tachwedd. G Parry, Rhuthun yw'r contractiwr. Diolchwyd i'r ddau swyddog am fynychu'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Croesawyd dau aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod.

46.3 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 30ain Medi 2015 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol bod y cofnodion yn gywir.

46.4 MATERION YN CODI O'R COFNODION
46.4.1 MAST PEN Y FRON, GWYTHERIN – nid oedd ymateb wedi dod i'n cais am eglurhad am dynnu'r cais cynllunio yn ôl a PHENDERFYNWYD i geisio cysylltu eto â chwmni Arqiva.
46.4.2 PROSIECT HIRAETHOG – nid oedd y gwaith byth wedi ei gwblhau ac roedd angen cysylltu eto.
46.4.3 PLANNU BLODAU YN Y TYBIAU – roedd Ann Vaughan ac Enid Davies wedi bod yn plannu blodau a bylbiau ac yn awyddus i wybod beth i'w wneud â'r gweddill. PENDERFYNWYD i ofyn i Gyngor Conwy os oeddynt yn bwriadu plannu blodau yn eu tybiau hwy yn y pentrefi ac os nad oeddynt byddai'n bosib plannu'r bylbiau oedd yn weddill gennym ni. Rhannwyd y bylbiau rhwng y tri phentref. Y Clerc i anfon llythyr o ddiolch at Mrs Enid Davies.
46.4.4 PEINTIO ARHOSFAN BWS – roedd y Clerc wedi sôn wrth Aelwyd Bro Cernyw am grant posib i wneud y gwaith. Awgrymwyd y gallai'r gwaith fod yn rhan o'r cwrs ysgol Bagloriaeth Gymreig.
46.4.5 CRONFA BRO CERNYW – diolchwyd i Elen H Edwards am y ffurflen gais a'r ffurflen asesu.
46.4.6 CWRS DEALL Y GYFRAITH – nid oedd y Clerc wedi cael cyfle i anfon nodiadau'r cwrs i bawb ond roedd am eu sganio a'u gyrru yn fuan.

46.5 DEDDF TEITHIO LLESOL (2013) - PENDERFYNWYD i'r Clerc anfon y manylion ar lein i'r aelodau.

46.6 YMDDYGIAD – darllenodd Ann O Vaughan ddatganiad ynglŷn ag aelodau'r Cyngor yn cael eu bygwth neu eu bwlio ac wedi trafodaeth PENDERFYNWYD os oedd un o'r Cynghorwyr neu'r Clerc yn derbyn unrhyw beth o'r fath y dylai'r mater gael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

46.7 MATERION CYNLLUNIO
46.7.1 CAIS RHIF 0/42002 Gosod tŵr gorsaf telathrebu a rennir sydd yn 18 metr o uchder gyda chwe antenna a chypyrddau offer cysylltiedig ar y ddaear ar dir i'r de o Pen y Fron, Gwytherin – cais wedi ei dynnu yn ôl. PENDERFYNWYD gofyn i'r Aelod Cynulliad Mr Darren Millar tybed lle oedd yr arian grant a glustnodwyd ar gyfer datblygiadau telathrebu wedi mynd os nad oedd y cwmni yn mynd ymlaen â'r cais.
46.7.2 Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru – SP Energy Networks – tir ychwanegol. PENDERFYNWYD yn unfrydol i ategu ein sylwadau blaenorol ar y datblygiad.
46.7.3 CAIS RHIF 0/41886 Adeiladu un tyrbin gwynt 30.5m i'r both (48.01m i'r llafn) gyda bocs rheoli a'r holl waith cysylltiedig yn Bodrach, Carmel – gwybodaeth ychwanegol ar y cais. PENDERFYNWYD i anfon at yr Adran Cynllunio yn mynegi ein teimlad y dylai holl adroddiadau a gwybodaeth ddod gyda'r cais gwreiddiol ac felly ni fyddai angen anfon gwybodaeth ychwanegol i'r cynghorau. Roedd y Cyngor Cymuned wedi rhoi sylwadau ar y cais hwn ers tro.
46.7.4 Gohebiaeth Rheolwr Rheoli Datblygu ac Adeiladu – derbyniwyd ateb i'n llythyr yn nodi bod pob llythyr penderfyniad yn ymddangos ar wefan Cyngor Conwy gyda'r cais perthnasol. PENDERFYNWYD i ofyn a fedr y swyddog ddangos lle mae adroddiad penderfyniad ar y ceisiadau h.y. yr amodau a pham fod cais wedi'i dderbyn neu'i wrthod.

46.8 CRONFA BRO CERNYW – PENDERFYNWYD i drafod y ceisiadau yn dilyn cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

46.9 GRAEAN GAN GYNGOR CONWY AR GYFER Y GAEAF – derbyniwyd neges drwy Rwydwaith Clercod y Sir bod yr Adran Amgylcheddol yn cynnig rhoi tunnell o halen mewn bagiau 25kg i bob cymuned i'w storio ac i'w defnyddio mewn llefydd lle nad yw rhwydwaith y sir yn graeanu. Trafodwyd y mater a gofynnwyd nifer o gwestiynau. PENDERFYNWYD yn unfrydol i anfon at Mr Lyn Davies, Adran Amgychedd i ddweud y byddai hyn yn ormod o risg i'w gymryd a beth fyddai gofynion yswiriant a.y.b. Nid oeddem yn gweld y cynllun yn gweithio o gwbl ac roeddem yn unfrydol fod y blychau halen melyn, y contractiwr graeanu lleol a'r lori graeanu fawr yn gweithio'n dda ar hyn o bryd.

46.10 CYFRANIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD i gyfrannu £30 at Ranbarth Conwy o Urdd Gobaith Cymru ond i beidio cyfrannu at Eisteddfod Ryngwladol Llangollen na'r Groes Goch Brydeinig.

46.11 ADRODDIAD O GYFARFODYDD
46.11.1 CYNHADLEDD A CHYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU – cafwyd adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhontrhydfendigaid ar Hydref 3ydd gan y Cadeirydd D Gwynfor Davies. Cafwyd anerchiadau gan Leighton Andrews o Lywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol (NALC). Cyfeiriwyd at newid ffiniau ond na fyddai dim yn digwydd cyn yr Etholiad ym mis Mai. Cafwyd sesiwn holi'r siaradwyr yn dilyn a'r ymateb yn gryno oedd y dylai cynghorau cymuned dderbyn pethau â breichiau agored, edrych yn bositif a chymryd prosiectau fel sialens.

46.11.2  CYFARFOD RHANBARTH UN LLAIS – mynychodd Diane Roberts a Tecwyn Evans y cyfarfod ar Hydref 14eg lle cafwyd cyflwyniad gan swyddog o Gofal a Thrwsio Conwy a Dinbych.  Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 6ed.

46.12  GOHEBIAETH – y Clerc i anfon dogfennau ymlaen i'r aelodau yn arbennig 'Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Gwobrau Chwaraeon Conwy, Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Papur Gwyrdd ar Iechyd

46.13  MATERION LLEOL
46.13.1  Tynnwyd ein sylw nad yw post yn cael ei gasglu o'r blwch ger Glan Collen yn y pnawn o hyn ymlaen.
46.13.2  Angen rhoi gwybod am y 'bagiau tywod' sydd yn y llan yn y Cylchlythyr.
46.13.3  Gor-yrru drwy bentref Llangernyw – bore a nos; a rasio ceir yn cychwyn o ganol y pentref tua 11.15pm.  Awgrymwyd bod arwyddion 20 mya yn cael eu gosod ger Ysgol Bro Cernyw. Angen gwadd heddwas i gyfarfod y Cyngor.
46.13.4  Mae giât addas wedi ei gosod ger Bont Faen – llawer haws cerdded y llwybr cyhoeddus.
46.13.5  Ffordd Gwytherin am Lansannan wedi ei chau oherwydd diffyg ar y bont ger Rhos Isaf – gwaith wrthi'n cael ei wneud yno a gobeithir ailagor yn fuan.
46.13.6  Teimlad anfodlon bod yr 'aradr eira' wedi mynd o Wytherin a bod y contract heb ei chynnig i gontractiwr arall yn y pentref.  Teimlid bod gwir angen aradr wedi ei lleoli yno gan fod y tywydd yn wahanol iawn yng Ngwytherin o gymharu â Llangernyw a Phandy Tudur.
46.13.7  Angen arwydd am Wytherin yng nghroesffordd Oerfa – dim ond arwydd am Langernyw sydd yno.
46.13.8  Lamp gwaelod allt Capel Gwytherin yn ddiffygiol.
46.13.9  Cyngor Conwy byth wedi torri ochr ffordd Plas yn Blaenau na Bryn Aber, Pandy Tudur.
46.13.10  Angen arwyddion rhag bod cŵn yn baeddu rhwng Tyddyn Uchaf a Glog Ddu, Llangernyw.

46.14  BILIAU

| | |
|---|---|
| D Evans (Chweched Toriad Mynwentydd ac ochr Gwytherin) | £510 |
| Cyfieithu Cymunedol | £68.40 |
| Cyflog a Chostau Clerc (3 mis) | £811.18 |
| D Gwynfor Davies (costau teithio i Gynhadledd Un Llais) | £50 |
| Ann O Vaughan (blodau a bylbiau) | £37.20 |

46.15  GWARIANT Y CYNGOR CYMUNED – cyflwynodd y Clerc drawsdoriad o'r gwariant hyd at ddiwedd Medi.

46.16  CYFARFOD NESAF – 25ain Tachwedd 2015.  Daeth y cyfarfod i ben am 9.55 yh.

*Cymeradwywyd y cofnodion D Gwynfor Davies……….*          *Dyddiad …25/11/15……*

Community Council Meeting was held on Wednesday, November 4th 2015 at 7.30 pm at the Pandy Tudur Community Centre

Apologies: Gwydion Jones, Cllr Dilwyn O Roberts

Present: D Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Ian W Griffith, Gwyn Williams, Ifor G Edwards, Elen H. Edwards, R Emlyn Williams and Clerk.

46.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the agenda.

46.2 LLANGERNYW TOILETS - Conwy Council officials Mr Steve Teale and Mr Edward Nash were welcomed to the meeting to present an update on the development of the toilets. It is understood that they had a few problems with the original path; that solar panels will be installed on the roof; that a successful site meeting had been held with the Community Council; legal details will be completed when the work is finished; hoped to finish by the end of November. G Parry, Ruthin is the contractor. Both officers were thanked for attending the meeting by the Chairman.

Two members of the public were welcomed to the meeting.

46.3 minutes - looked at the minutes of 30th September 2015 meeting and unanimously RESOLVED that the records were correct.

46.4 MATTERS ARISING
46.4.1 PEN FRON MAST, GWYTHERIN – the company did not respond to our request for clarification why the planning application was withdrawn. RESOLVED to try again to contact the Arqiva company.
46.4.2 PROJECT HIRAETHOG - the work has not been completed and the Clerk to contact again.
46.4.3 PLANTING FLOWERS IN THE TUBS - Ann Vaughan and Enid Davies have been planting flowers and bulbs and want to know what to do with the rest. RESOLVED to ask Conwy Council if they intend to plant flowers in their tubs in the villages and if they did not could we go ahead to plant the bulbs . The bulbs were divided between the three villages. The Clerk to send a letter of thanks to Mrs. Enid Davies.
46.4.4PAINTING THE BUS STOP - the Clerk has mentioned possible grant money to Aelwyd Bro Cernyw to do the work. Suggested that work could be part of the school's Welsh Baccalaureate course.
46.4.5 BRO CERNYW FUND - thanks to Elen H. Edwards for the application and assessment form.
46.4.6 UNDERSTANDING THE LAW COURSE - The Clerk had not had a chance to send notes out but hoped to scan and send them soon.

46.5 ACTIVE TRAVEL ACT (2013) - RESOLVED the Clerk to send the details online to members.

46.6 CONDUCT - Ann O Vaughan read a statement regarding Council members

been threatened or bullied and after a discussion on the matter it was resolved if one of the Councillors or the Clerk receives any such thing that the matter should be discussed at the next meeting of the Community Council.

46.7 PLANNING

46.7.1 APPLICATION NUMBER 0/42002 Installation of telecommunication tower station which is shared with six 18 meter high antenna and associated equipment cabinets on the ground on land south of Pen y Fron, Gwytherin - application has been withdrawn. RESOLVED to ask the Assembly Member Mr Millar where the grant money which was earmarked for telecommunications developments goes if the company did not proceed with the development.

46.7.2 Connecting North Wales Wind Farms - SP Energy Networks - additional land. RESOLVED unanimously to support our previous observations on the development.

46.7.3 APPLICATION NUMBER 0/41886 Construction of a wind turbine hub to 30.5m (48.01m to the blade) with a control box and all associated works at Bodrach, Carmel - additional information on the application. RESOLVED to send to the Planning Department expressing our feeling that all reports and information should accompany the original application and therefore there would be no need to send additional information to the council. The Community Council has commented on this application a while ago.

46.7.4 Development and Building Control Manager Correspondence - received reply to our letter stating that every decision letter appears on the Conwy Council website with relevant application. RESOLVED to ask the officer can she show where the decision on the applications ie the conditions and why the application has been accepted or rejected is situated.

6.8 BRO CERNYW FUND - RESOLVED to discuss the applications following the next meeting of the Community Council.

46.9 WINTER SALT FROM CONWY COUNCIL - a message was received by the County Clerks Network that Environment Department proposes giving tonne of salt in 25kg bags per community for storage and for use in places where county grit network does not cover. The matter was discussed and many questions asked. RESOLVED unanimously to send to Mr Lyn Davies, Environment Department to say that this would be too risky to take on and what would be the insurance requirements etc. We did not see the plan working at all and we were unanimous that the yellow salt boxes, the local contractor and the large lorry gritters were working well at the moment.

46.10 FINANCIAL CONTRIBUTIONS - RESOLVED to contribute £ 30 to the Conwy Region of the Urdd but not to contribute to the International Eisteddfod or the British Red Cross.

46.11 REPORT OF MEETINGS

46.11.1 CONFERENCE AND ANNUAL MEETING ONE VOICE WALES – the Chairman D Gwynfor Davies gave a report on AGM held on October 3rd in Pontrhydfendigaid. The speakers were Leighton Andrews from the Welsh Government and the Chief Executive of the National Association of Local Councils (NALC). Referred to changing borders, but nothing would happen before the election in May. There was a question and answer session following and the general

response was that community councils should accept changes with open arms, take positive approach and take on projects as a challenge.

46.11.2 REGIONAL MEETING ONE VOICE - Diane Roberts and Tecwyn Evans attended the meeting on October 14 where there was a presentation by an officer from Care and Repair Conwy and Denbigh. The next meeting will be on January 6.

46.12 CORRESPONDENCE - the Clerk to forward documents to members in particular 'Welsh Independent Remuneration Panel, Conwy Sports Awards, Public Service Ombudsman Wales Bill, Green Paper on Health.

46.13 LOCAL ISSUES
46.13.1 It was brought to our attention that mail will not be collected from the box near Glan Collen in the afternoon from now on.
46.13.2 To publicize the 'sandbags' in the village in the Newsletter.
46.13.3 Speeding through the village of Llangernyw - morning and night; and racing cars starting from the village centre around 11.15pm. Suggested that the 20 mph signs are placed near Ysgol Bro Cernyw. Policeman to be invited to next meeting of the Council.
46.13.4 A suitable gate has been placed near Pont Faen - much easier to walk the public footpath.
46.13.5 Road Gwytherin to Llansannan has been closed due to damage to the bridge near Rhos Isaf - work is being done there and hope to reopen soon.
46.13.6 Feeling disappointed that the 'snow plough' has gone from Gwytherin and the contract has not been offered to other contractors in the village. It was felt that we really need a plough stationed there since the weather is very different in Gwytherin compared to Llangernyw and Pandy Tudur.
46.13.7 Need signpost for Gwytherin at Oerfa crossroads - there is only a sign for Llangernyw there.
46.13.8 Street Lamp at bottom of Gwytherin Chape hill defective.
46.13.9 Plas yn Blaenau and Bryn Aber, Pandy Tudur roadsides have not been cut.
46.13.10 Dog fouling signs should be put up between Tyddyn Uchaf and Glog Ddu, Llangernyw.

46.14 BILLS
D Evans (Sixth Cut to Cemeteries and Gwytherin bank) £ 510
Community Translation £ 68.40
Salary and Clerk Costs (3 months) £ 811.18
D Gwynfor Davies (travel expenses to One Voice Wales Conference ) £ 50
Ann O Vaughan (flowers and bulbs) £ 37.20

46.15 COMMUNITY COUNCIL EXPENDITURE - The Clerk presented a cross-section of the expenditure up to end of September.

46.16 NEXT MEETING - 25th November 2015. The meeting ended at 9.55 pm.

The minutes were approved ..*D Gwynfor Davies* ....................... Date *25/11/15*.......